

BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLWYD CYMRU

11 CHWYFROR 2021, 2.00PM

Drwy Teams

Cofnodion

Yn bresennol

Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jane Tremlett (CllrT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Jonathan Griffiths, Cyngor Sir Penfro
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Joanne Silverthorne (JS), Cynrychiolydd Gofalwyr
Alun Williams (CllrW), Cyngor Sir Ceredigion
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Sian Howys (SH), Cyngor Sir Ceredigion
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hefyd yn bresennol:

Martyn Palfreman (MJP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Jessica Rees (JR), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Rebecca Llewhellin (RL), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Rachel Rowlands (RR), Age Connects Morgannwg (Yn bresennol ar gyfer Eitem 3)
Angela Lodwick (AL), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Yn bresennol ar gyfer Eitem 3)
Warren Lloyd (WL), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Yn bresennol ar gyfer Eitem 3)
Stefan Smith (SS), Cyngor Sir Caerfyrddin (Dirprwyo ar ran Gareth Morgans)

Yn Bresennol ar gyfer Eitem 3:

Deb Austin (DA), Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc
Dr Liz Gregory (LG), Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc
Rachel Rowlands, Rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc

Ymddiheuriadau

Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gaynor Toft (GT), Cyngor Sir Penfro
James Tyler (JT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Karen Chandler, (KC) Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (CllrH), Cyngor Sir Penfro
Steve Moore, (SM) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Maria Battle, (MB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau

Nodwyd y rhain.

3. Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc: Fframwaith Cymorth Cynnar a Chymorth Estynedig- Galw am Fabwysiadwyr Cynnar

Cyflwynodd a chroesawodd y Cadeirydd Liz Gregory, Rachel Rowlands a Deb Austin, aelodau o dîm cenedlaethol Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (TFCYP). Fe wnaethant roi trosolwg i'r aelodau o'r rhaglen, a oedd yn cynnwys 3 ffrwd waith, a datblygwyd pob un ohonynt trwy ymgysylltu â grŵp pobl ifanc, grŵp rhieni a gofalwyr ac ystod ehangach o randdeiliaid.

Cyflwynwyd NEST neu'r Fframwaith Cymorth Cynnar a Chymorth Estynedig gan LG, Cadeirydd y ffrwd waith. Roedd y fframwaith a gynhyrchwyd ar y cyd yn canolbwyntio ar 6 maes gwaith allweddol, gan hyrwyddo dull amlasiantaethol o ddiwallu anghenion iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, wedi'i lywio gan y dull 'Dim Drws Anghywir'. Roedd y fframwaith yn cael ei ddigideiddio i ddarparu offeryn rhyngweithiol i bartneriaid wrth ddatblygu'r dull ar lefel ranbarthol.

Eglurodd RR y byddai Byrddau Partneriaeth Ranbarthol yn cael eu gwahodd i ddod yn fabwysiadwyr cynnar o'r fframwaith ym mis Chwefror ac y byddai Byrddau Partneriaeth Ranbarthol yn cael eu dewis ym mis Mawrth. Roedd cyfarfod yn cael ei gynnal ar 3 Mawrth lle byddai'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol, i ddarparu gwybodaeth bellach i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ac arweinwyr. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am gyfres o gwestiynau 'hunanasesu' / ffactorau parodrwydd i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol eu hystyried fel ffordd o benderfynu a ddylid ceisio statws mabwysiadwr cynnar.

Croesawodd yr aelodau y dull gan nodi'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â dod yn fabwysiadwr cynnar. Dywedwyd mor bwysig yw hi i osod canlyniadau clir ar gyfer y fframwaith a dywedodd LG fod gwaith yn cael ei wneud gyda chydweithwyr Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werthoedd i roi sylw i hyn. O ystyried cwmbras eang y fframwaith, nodwyd y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd chwarae rôl a allai fod yn hanfodol yn y gwaith o'i weithredu. Nodwyd hefyd y byddai

gwasanaethau nad ydynt yn arbenigol yn chwarae rhan allweddol yn y fframwaith. Dylid hefyd ystyried effaith afiechydon prin ar blant a phobl ifanc.

Cadarnhaodd RR nad oedd y ffactorau parodrwydd i fod i'w defnyddio fel sail ar gyfer barnu Byrddau Partneriaeth Ranbarthol unigol, ond i gynorthwyo byrddau i wneud penderfyniadau ynghylch y fframwaith. Roedd modd i bartneriaethau ar wahanol gamau o'r 'raddfa aeddfedrwydd' gymryd rhan fel mabwysiadwyr cynnar.

Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cefnogi'r egwyddor o ddod yn fabwysiadwr cynnar ac yn gofyn i'r grŵp plant a phobl ifanc ystyried y goblygiadau ymhellach a chadarnhau'r sefyllfa ranbarthol gyda Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror.

Diolchodd y Cadeirydd i gydweithwyr T2CYP am fod yn bresennol a'r wybodaeth yr oeddent wedi'i darparu.

4. Cynllun Gaeaf Integredig Gorllewin Cymru 2020-21: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Rhoddodd JP y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Gaeaf Integredig, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn y cyfarfod ym mis Hydref. Gofynnwyd i'r aelodau nodi cynnydd ac ystyried y canlynol:

- Ar hyn o bryd, roedd y gwariant a ragwelir yn dangos llithriant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn ar draws y gwahanol ffrydiau cyllido. Roedd hyn ar draws y gwahanol ffrydiau cyllido. O ran cyllid D2RA, yr oedd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol oruchwyliaeth uniongyrchol ar ei gyfer, y llithriant a ddisgwyliwyd ar hyn o bryd oedd £259K. Yn yr un modd ag elfennau eraill y cynllun, roedd ffactorau cyfrannol yn cynnwys oedi neu beidio â chyflawni cynlluniau cymeradwy oherwydd prinder staff / gweithlu yn sgil y pandemig ac mewn rhai achosion, yr anallu i weithredu darpariaeth cam-i-lawr oherwydd gwaharddiadau mewn rhai cartrefi gofal.
- Roedd gwariant a gwaith cyflawni'n cael eu monitro'n rheolaidd trwy grŵp llywio amlasiantaethol a oedd yn dal i gwrdd bob pythefnos. Cymerwyd cynigion llithriant trwy'r grŵp hwn ac yna cymeradwywyd y rhai y cytunwyd arnynt mewn egwyddor gan y Grŵp Gweithredol Integredig (IEG) yn achos prosiectau a ariennir gan D2RA a thrwy lywodraethu mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer cynlluniau eraill. Roedd disgwyl i'r broses hon fod wedi'i chwblhau erbyn canol mis Chwefror gyda'r nod o sicrhau'r gwariant mwyaf posibl trwy gymeradwyo cynigion llithriant nad oeddent yn dibynnu ar bersonél i'w cyflawni (er enghraifft offer ac atebion digidol).
- Roedd y grŵp hefyd yn darparu dull ar gyfer cipio dysgu ac asesu llwyddiant cymharol cynlluniau. Roedd dysgu hefyd yn cael ei fwydo i mewn i grŵp gorchwyl cenedlaethol a oedd yn edrych ar lwybrau Ryddhau i Adfer yna Asesu a'u datblygu yn y dyfodol, y cynrychiolwyd y rhanbarth arno. Byddai dysgu'n cael ei fwydo i gynllunio ar gyfer y gaeaf yn y blynyddoedd nesaf, a byddai angen dechrau ar y gwaith hwnnw ar ddiwedd y cyfnod cyflawni ar gyfer y cynllun eleni i bob pwrpas.

Awgrymodd HLL y byddai'n werth o bosib gynnal dadansoddiad manylach o gynlluniau llwyddiannus a phwyntiau dysgu mewn cyfarfod yn y dyfodol. Awgrymodd hefyd y byddai'n werth cynnwys y trydydd sector yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gaeaf a'i roi ar waith. Dywedodd MJP fod y trydydd sector wedi cael gwahoddiad i fod yn rhan o'r grŵp llywio ac y byddai mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu harchwilio yn y rhaglenni yn y dyfodol.

Nodwyd hefyd y byddai gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â'r Hyb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella i fapio rhaglenni presennol yn y rhanbarth ar draws yr holl ffrydiau cyllido i nodi cysylltiadau, gwella aliniad a choladu gwybodaeth am effaith. Byddai'r cynnydd yn cael ei rannu â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun.

5. Gorllewin Cymru Iachach (Cronfa Trawsnewid): Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Dywedodd MJP fod y dyraniad o £6m i Orllewin Cymru wedi'i gadarnhau ar ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gymeradwyo'r cynlluniau busnes amlinellol ar gyfer rhaglenni Gorllewin Cymru Iachach yn 2021-22 yn ei gyfarfod ym mis Hydref a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd y dyfarniad yn amodol ar nifer o Amodau Rheoli Gweithredol a oedd yn cynnwys cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd, datblygu a chyflawni cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael ag argymhellion gwerthusiad KPMG a bod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cydymffurfio â gofynion gwerthuso allanol pellach. Dywedwyd wrth yr aelodau bod Cynllun Gweithredu KPMG wedi'i ddosbarthu ynghyd â phapurau'r Bwrdd a bod gwaith wedi'i wneud ar fireinio metrigau ar gyfer y rhaglenni. Byddai'r Ap 'Cysylltiadau Llesiant' ar gael yn fuan a byddai'n darparu mecanwaith ar gyfer cipio effaith ansoddol y rhaglenni ochr yn ochr â mesurau meintiol.

Roedd partneriaid bellach yn gweithio ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau cyflawni manylach, gyda chefnogaeth cyllidebau dangosol o fewn y dyraniad cyffredinol o £6m. Roedd angen cyflwyno'r rhain i Lywodraeth Cymru erbyn canol mis Chwefror. Roedd cyfarfod i uwch reolwyr o bob rhan o asiantaethau partner yn cael ei gynnal ar 12 Chwefror i gytuno ar fanylion cynlluniau busnes a'r cyllidebau.

Hefyd rhoddwyd gwybod i'r aelodau am ddyraniadau pellach o £250K ar gyfer yr Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwella, £60K ar gyfer capasiti gwerthuso a pherfformiad a £40K i gefnogi ymgysylltiad parhaus. Byddai rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r rhain yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cllr AW am ddiffyg ymddangosiadol yn y cyllid ar gyfer Rhaglen 3 (Integreiddio Cyflym a Chyson) yn ystod y flwyddyn i ddod a chododd bryderon hefyd ynghylch cadernid a thryloywder llywodraethu ar lefel ranbarthol a phwysleisiodd yr angen am eglurder ynghylch sut mae penderfyniadau yn ymwneud â chyllid a phethau eraill yn cael eu gwneud.

Cadarnhaodd MJP fod trafodaethau ynglŷn â'r gyllideb yn seiliedig ar y symiau dangosol yn y cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt ym mis Hydref. Dywedodd hefyd

fod cynigion cyfredol yn cynyddu'r dyraniad i Raglen 3 fel cyfran o'r dyraniad cyffredinol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd bod pwysau'r pandemig Covid-19 wedi arwain at nifer o grwpiau rhanbarthol yn rhoi'r gorau iddi dros y flwyddyn ddiwethaf gan fod sylw a gallu wedi cael g eu dargyfeirio i ymateb i'r argyfwng. Roedd yr IEG wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â hyn ac wedi ymrwymo i adfer trefniadau llywodraethu priodol i ddarparu atebolrwydd clir yng ngweddill y flwyddyn gyllido. Cytunwyd y byddai papur yn manylu ar drefniadau llywodraethu rhanbarthol yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gynnwys yr adroddiad a chytunodd i ddirprwyo cymeradwyo'r cynlluniau cyflawni wedi'u costio i IEG, fel eu bod yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau ganol mis Chwefror.

6. Cronfa Gofal Integredig: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Dywedodd KN fod adroddiad Chwarter 3 ar Gynllun Buddsoddi Refeniw 2020-21 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i fod wedi'i gymeradwyo. Mae rhai materion yn ymwneud â chadarnhau gwariant a ffigurau amcanestyniad yn dal yn berthnasol; roedd y materion hyn yn cael sylw a byddent yn cael eu datrys yn ystod y Chwarter olaf.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau dyraniadau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2021-22. Roedd partneriaid yn cwblhau Cynllun Buddsoddi Refeniw Gorllewin Cymru ar gyfer 2021-22 a byddai hwn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Mawrth i'w gymeradwyo. O ran 2021-22 gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r canlynol:

- Roedd cyllid ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn cael ei dynnu o'r ICF a byddai'n cael ei hariannu o ffynhonnell arall. Roedd y £2m yn rhaglen y Gronfa Gofal Integredig yn genedlaethol ar gael i helpu rhanbarthau i ddatblygu Llety Diogel i blant ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol cymhleth a dwys, yn gyson ag argymhellion yn adroddiad 'Dim Drws Anghywir' y Comisiynydd Plant. Gwahoddwyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflwyno cynigion trwy broses cynnig agored, a disgwylir penderfyniad ar ddyraniadau erbyn diwedd y mis.
- Roedd y rhaglen Dementia yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac roedd capasiti allanol yn cael ei gomisiynu i arwain ar y gwaith hwn a datblygu Strategaeth Dementia ranbarthol.
- Byddai ymgynghorwyr OBell 3 yn cynnal gwerthusiad allanol o brosiectau dethol y Gronfa Gofal Integredig yng Ngorllewin Cymru fel rhan o raglen werthuso genedlaethol

Wrth fynd i'r afael ag ymholiad ynglŷn â'r brigdoriant rhanbarthol, cadarnhaodd MJP fod hyn yn cyfrannu tuag at gostau cyflogau yn yr Uned Cydweithredu Rhanbarthol, costau cydgysylltu ariannol y rhaglen o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chyflawni rhaglenni gwaith 'galluogi', megis o ran comisiynu.

O ran Cyfalaf, dywedodd KN, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, na fyddai Llywodraeth Cymru yn caniatáu i danwariant gael ei 'reoli gan raglenni' (i'w gario ymlaen i bob pwrpas) yn y flwyddyn i ddod ac felly roedd rhywfaint o bwysau o ran sicrhau'r gwariant mwyaf posibl yn y flwyddyn gyfredol, i ddefnyddio cymaint o ddyraniad y flwyddyn gyfredol â phosibl a bod oddeutu £4m wedi'i reoli gan raglenni o'r blynyddoedd blaenorol. Roedd yr angen am wneud penderfyniadau lleol yn gyflym i gyflymu prosiectau yn her ond roedd pob ymdrech resymol yn cael ei gwneud. Gwnaed cynnydd sylweddol ac roedd disgwyl i'r gorwariant o £1.7m a ragwelir ar hyn o bryd gael ei leihau'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd tanwariant sylweddol mewn perthynas â'r rhaglen gofalwyr. Dywedodd KN fod hyn wedi achosi'n rhannol oherwydd anfonebu hwyr a'i fod yn cael sylw trwy Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru. Byddai gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf.

Nododd yr aelodau ffurflen Chwarter 3 ar gyfer 2020-21, dyraniadau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2021-22 a threfniadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Buddsoddi Refeniw a Chyfalaf.

7. Y Papur Gwyn 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth'

Rhoddodd MJP drosolwg o'r Papur Gwyn 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth' a ryddhaodd Llywodraeth Cymru at ddibenion ymgynghori ar 12 Ionawr 2021, a oedd yn cynnwys cynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a gwella'r gwaith o weithio mewn partneriaeth a thrwy hynny cyflawni'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd briff wedi'i ddarparu ar gyfer y Bwrdd, a oedd yn rhoi sylw i'r 3 phrif faes ffocws a nodwyd yn y Papur Gwyn, fel a ganlyn:

- Fframweithiau comisiynu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant,
- Creu swyddfa genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol
- Mae cryfhau Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi'i nodi yn y Papur Gwyn.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y cynnig i gryfhau Byrddau Partneriaeth Ranbarthol trwy eu gwneud yn endidau cyfreithiol corfforaethol gyda'r gallu i gyflogi staff, gosod blaenoriaethau ar gyfer comisiynu rhanbarthol a chynnal cyllidebau integredig. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai angen cydbwyso pwerau ychwanegol ar lefel ranbarthol yn erbyn yr angen am atebolrwydd lleol parhaus. Byddai angen ystyried effaith bosibl fframweithiau comisiynu cenedlaethol ar drefniadau presennol yn y rhanbarth yn ofalus hefyd. Dywedwyd hefyd fod yna botensial am newid sylweddol yn y byd gwleidyddol gan fod etholiadau'r Senedd ar y gorwel.

Roedd cefnogaeth i ymateb ar y cyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'r ymgynghoriad, a fyddai'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag ymatebion unigol gan asiantaethau partner. Byddai'n bwysig bod ymateb y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cael ei rannu ag i asiantaethau unigol i'w gytuno cyn ei gyflwyno. Dywedodd MJP fod gwaith yn mynd rhagddo trwy'r Grŵp Rhaglen Gomisiynu rhanbarthol i ddatblygu safbwynt ar y cyd mewn perthynas â'r cynigion sy'n ymwneud yn benodol â

chomisiynu. Cytunwyd ar ddull tebyg mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer gwella trefniadau rhanbarthol a gofynnwyd i'r aelodau enwebu cydweithwyr i ymuno â grŵp gorchwyl a gorffen at y diben hwn. Enwebodd JM Chris Harrison ac Avril Bracey ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.

Dywedodd yr aelodau y byddai ymateb drafft yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Mawrth.

8. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2020 a chatau gweithredu

Cymeradwywyd y rhain fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf 18 Mawrth 2021, 10AM, trwy Teams

10. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd AT wrth yr aelodau am y Diwrnod Clefydau Prin sydd ar 28 Chwefror a dywedodd fod Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno i oleuo Neuadd y Sir i nodi'r digwyddiad.

CAMAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Camau Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Terfyn Amser	Cynnydd	Statws
10/20/01	Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â meysydd i'w gwella KPMG (HWW) a'u cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol	MJP	Chwefror 2021	Cyflwyno'r cynllun yn y cyfarfod ar 11 Chwefror	
10/20/02	Ailymgynnull Fforwm y Gronfa Gofal Integredig	MJP	Nid yw wedi'i nodi;	Cwblhawyd a chyfarfodydd misol wedi'u hailgyflwyno	
10/20/03	Cwrdd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod dull o gynnal Asesiad Poblogaeth	MJP	Nid yw wedi'i nodi;	Disgwylir arweiniad Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Ebrill 2021	
02/21/01	Cadarnhau safbwynt rhanbarthol ynghylch cais Mabwysiadwr Cynnar ar gyfer Fframwaith EHES	Grŵp Plant Rhanbarthol	Chwefror 2021	'Cais' am statws Mabwysiadwr Cynnar wedi'i gyflwyno; yn aros am benderfyniad CWBLHAWYD	
02/21/02	Cymeradwyo a chyflwyno Cynlluniau Cyflenwi Gorllewin Cymru Iachach ar gyfer 2021-22 i Lywodraeth Cymru	IEG	Canol mis Chwefror 2021	Cyflwynwyd ar 15 Chwefror 2021 CWBLHAWYD	
02/21/03	Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant y Gronfa Gofal Integredig o ran gofalwyr	KN	18 Mawrth 2021	Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu ar 18 Mawrth	
02/21/04	Enwebiadau ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen i ddrafftio ymateb y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ymgynghoriad Papur Gwyn	Pawb	Canol Chwefror 2021	Byddai ymateb drafft yn cael ei ystyried ar 18 Mawrth	

